

CRONFA CYCHWYN BUSNES SIR GAERFYRDDIN

ARWEINIAD A THELERAU AC AMODAU



Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin Arweiniad i Ymgeiswyr

Cyflwyniad

Fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i ddatblygu economaidd a chynorthwyo busnesau, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflwyno Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin.

Nod y Gronfa Cychwyn Busnes yw cynorthwyo'r gwaith o greu busnesau newydd yn y sir, gan arwain yn uniongyrchol at greu swyddi ac felly gwella'r economi leol.

Cynllun Grantiau i Drydydd Partion fydd y Gronfa, a fydd yn cynnwys cymorth ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol lle bydd swyddi'n cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.

Y Cynnig

- Grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael.
- Bydd pob grant yn seiliedig ar 50% o'r costau cymwys NEU uchafswm o £5,000 ar gyfer pob swydd sy'n cael ei chreu, pa un bynnag yw'r lleiaf. (Rhaid creu o leiaf un swydd newydd er mwyn cael mynediad at y gronfa)
- Y grant lleiaf yw £1,000 (yn seiliedig ar greu un swydd newydd) a'r grant mwyaf ar gyfer un busnes yw £10,000 (yn seiliedig ar greu o leiaf 2 swydd)
- Bydd y gronfa'n cynorthwyo entrepreneuriaid newydd â'u dyheadau wrth gychwyn busnes drwy ddarparu cyfraniad ariannol tuag at brosiectau gwariant cyfalaf a/neu wariant refeniw arbenigol, a fydd yn galluogi naill ai prosiectau buddsoddi cyfalaf pellach neu gynnig cychwyn busnes penodol y gallai fod yn cynnwys costau refeniw uchel.
- Sylwer - Ystyrir bod dwy swydd ran-amser yn gyfwerth ag un swydd amser llawn. **Os ydych chi'n creu un swydd ran-amser yn unig, bydd y grant yn cael ei dalu ar sail pro rata, h.y. uchafswm o £2,500 ar gyfer swydd ran-amser**
- Gall pob busnes ymgeisio am gymorth y Gronfa Cychwyn Busnes unwaith yn unig, ond gall ymgeisio am gymorth Cronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin ar gyfer prosiectau ar wahân os yw'n tyfu'r busnes ac yn creu swyddi pellach. Mae'n rhaid darparu canlyniadau yn sgil y Gronfa Cychwyn Busnes, h.y. dechrau masnachu a chreu swyddi cyn y gellir ystyried y cais ar gyfer y Gronfa Tyfu Busnes. Rhaid bod 6 mis o leiaf wedi mynd heibio ers cael cymorth y Gronfa Cychwyn Busnes cyn eich bod yn gymwys i wneud cais ar gyfer y Gronfa Tyfu Busnes.

Cymhwysedd

Mae Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin yn cael ei ariannu a'i ddarparu gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ac felly mae ond ar gael i grwpiau neu unigolion sydd â chynlluniau busnes newydd ymarferol a fydd yn cael eu lleoli yn Sir Gaerfyrddin ac a fydd yn gweithredu mewn un o'r sectorau cymwys neu'n ei wasanaethu.

Mae'r gronfa ar gael i fusnesau cyn cychwyn (heb fasnachu eto) neu fusnesau sydd wedi bod yn masnachu am lai na 6 mis. Bydd angen darparu tystiolaeth megis cofrestrriad â CThEM, cyfriflenni banc, eich anfoneb gyntaf ac ati er mwyn profi'r dyddiadau masnachu.

Yn bennaf, mae'r cymorth ar gyfer busnesau newydd a fydd yn gwasanaethu'r sectorau twf a sylfaen canlynol, neu'n gweithredu ynddynt:

- Deunyddiau uwch a Gweithgynhyrchu;
- Adeiladu;
- Diwydiannau Creadigol;
- Ynni a'r Amgylchedd;
- Gwasanaethau Cyllid a Phroffesiynol;
- Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu;
- Gwyddorau Bywyd;
- Bwydydd a Diodydd;
- Twristiaeth
- Adwerthu
- Gofal

Fodd bynnag, caiff ceisiadau eu hystyried fesul achos gan ddibynnu ar eu cyfraniadau a'u gwerth posibl i'r economi leol, e.e. creu swyddi yng nghanol trefi, ardaloedd gwledig, cyswllt â phrosiectau strategol allweddol megis Yr Egin a Phentref Llesiant Llanelli.

Fodd bynnag, nid yw'r sectorau canlynol yn gymwys i gael cymorth: - cynhyrchu amaethyddol sylfaenol, coedwigaeth, dyframaethu, pysgota a gwasanaethau statudol, e.e. iechyd ac addysg

Rhaid cwblhau'r holl wariant sy'n gysylltiedig â'r grant cyn pen **4 mis** ar ôl dyddiad y llythyr cymeradwyo. Rhaid creu'r busnes arfaethedig a'r swyddi cysylltiedig cyn pen 12 mis ar ôl y taliad grant terfynol. Bydd y busnesau a'r swyddi sydd wedi'u creu'n cael eu monitro a bydd tystiolaeth yn ofynnol. Gallai methu â chael y canlyniadau a ddisgwyli'r arwain at dynnu arian grant yn ôl.

Bydd y grant yn berthnasol ar gyfer gwariant cyfalaf a/neu wariant referniw mewn prosiect cymeradwy a gall gynnwys:

Gwariant Cyfalaf:

- Prynu offer newydd neu ail-law (peiriannau, offer arbenigol ac ati.)
- Caledwedd TG a Thelathrebu os ydynt wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni'r prosiect
- Gwella adeiladau a safleoedd/mân waith er mwyn addasu a gwella adeiladau/safleoedd i gynyddu capasiti, gwella effeithlonrwydd, rhoi prosesau newydd ar waith. ** Er mwyn cael grantiau ar gyfer eiddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn berchen ar y safleoedd neu fod ganddynt y caniatâd perthnasol gan y landlord i wneud y gwaith. Os yw'r safleoedd yn cael eu prydlesu, rhaid bod o leiaf 7 mlynedd yn weddill ar y brydles.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddangos tystiolaeth eu bod wedi sicrhau'r gofyniad statudol i ymgymryd â'r gwaith, hynny yw caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu, ac ati

- Gosodion a ffitiadau, dodrefn ac offer swyddfa ac ati fel rhan o symudiad swyddfa neu swyddfa newydd
- Ffioedd sy'n gysylltiedig â chyflenwi/ darapru unrhyw gyfarpar cyfalaf

Gwariant refeniw arbenigol:

- Hyfforddiant arbenigol/technegol (nid yn achrededig o reidrwydd)
- Comisiynu/gosod peiriannau
- Meddalwedd arbenigol
- Ymgynghorwyr Arbenigol (wedi'u hasesu fesul achos)
- Ardystiad Sicrhau Ansawdd (wedi'i asesu fesul achos)
- Datblygu'r wefan a datblygu e-fasnach
 - ** rhaid i wefannau sy'n gysylltiedig â'r grant gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
- Deunyddiau marchnata fel rhan o gynllun marchnata llawn (a asesir ar fusnes achos yn ôl achos) * rhaid cynhyrchu pob deunydd marchnata sy'n gysylltiedig â'r grant yn ddwyieithog

Mae'r gwariant anghymwys yn cynnwys: -

- Gwariant refeniw cyffredinol megis costau staff neu unrhyw drethi eraill, hurbrynu/prydlesu
- Cerbydau
- Costau atgyweirio, cadw a chynnal ac addurno
- Amnewid ffitiadau cyffredinol, celfi ac offer swyddfa cyffredinol ac ati.
- Costau a ffioedd 'wrth gefn' yr ymrwymwyd iddynt neu a wariwyd cyn i'r grant gael ei gynnig a'i dderbyn.
- Costau cyfalaf gweithio megis stoc, rhent, ardrethi, gweinyddu.
- Tystysgrifau a thrwyddedau.
- Costau gwaith a wneir sy'n ofyn statudol o dan y gyfraith, gan gynnwys caniatâd cynllunio.
- Astudiaethau dichonoldeb
- Os yw'r busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, ni fydd TAW yn gost gymwys. Bydd TAW yn daladwy yn achos cwmnïau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer TAW.
- Ni ddylid gwario unrhyw arian cyn i'r grant gael ei gymeradwyo gan na ellir rhoi grantiau'n ôl-weithredol.
- Ni ystyrir rhoi grantiau ar gyfer yr hyn sy'n cael ei brynu ag arian parod.
- Ni fydd eitemau a brynir trwy brydlesu, hurbrynu, prydlesi cyllid/trefniadau credyd estynedig yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant.
- Mae eitemau a brynir drwy gardiau credyd yn gymwys ond bydd angen i'r ymgeisydd ddangos fod y swm ar y cerdyn wedi'i dalu'n llawn cyn hawlio'r grant.
- Ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag ymgynghorwyr busnes cyffredinol gan gynnwys cynlluniau busnes / ysgrifennu AGB ac unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â chwblhau cais at ddibenion grantiau

Mae costau prynu offer ail-law yn gymwys am grant o dan yr amodau canlynol:-

- Rhaid i werthwr yr offer lunio datganiad yn nodi o ble y daeth, a chadarnhau nad ydynt ar unrhyw adeg yn ystod y saith mlynedd blaenorol wedi cael eu prynu â chymorth grantiau cenedlaethol neu Ewropeaidd;
- Rhaid i bris yr offer beidio â bod yn fwy na'u gwerth ar y farchnad a rhaid iddo fod yn llai na chost offer newydd tebyg a
- Rhaid i'r offer fod â'r nodweddion technegol sy'n angenrheidiol i weithredu a rhaid i'r offer gydymffurfio â'r safonau sy'n arferol ac yn berthnasol (e.e. Iechyd a Diogelwch

Ymgeisio ac Asesu

Bydd yr holl geisiadau wedi'u cwblhau yn cael eu hystyried ar sail y cyntaf i'r felin nes bydd y gronfa wedi'i ddyrannu'n llawn. Rhaid cyflwyno pob cais erbyn y dyddiad cau penodedig o bob panel misol. Ni chaiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw eu hasesu a'u cadarnhau gan y panel tan gyfarfod y mis canlynol.

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn allbynnau niferoedd y swyddi a grëwyd, cymhareb gwerth am arian / grant fesul swydd a buddsoddiad gan y sector preifat a godwyd gan y grant yn ogystal â hyfywdra'r cynllun busnes i gefnogi'r cynlluniau o ddechrau a tyfu'r busnes

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau a dychwelyd yr eitemau canlynol:

- Ffurflen Gais,
- Cynllun Busnes
- Rhagolygon 3 blynedd (llif arian a/neu'r elw a'r golled)
- Tystiolaeth o'r dyddiad dechrau masnachu, e.e. cofrestrriad â CThEM, cyfriflenni banc, eich anfoneb gyntaf ac ati
- Welsh Language Policy- Applicants will need to outline the ways in which the scheme encourages the development of the Welsh Language and retain local workforce
- All signage erected as part of the project will be required to be bilingual

Dylai ymgeiswyr dychwelyd y ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dogfennau atodol at:

Post:

Y Tîm Datblygu Economaidd,
Tîm Cronfa Busnes,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Canolfan Fusnes Gwledig,
Nant Y Ci, Caerfyrddin,
SA33 5DR
E-bost: businessfund@sirgar.gov.uk

Dylid nodi mai grant disgresiwn yw Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Asesir pob cais gan banel sy'n cynnwys swyddogion yr Awdurdod cyn i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio roi cymeradwyaeth derfynol.

Caffael

Prynu Nwyddau, gwasanaethau, neu waith

Mae disgwyl i ymgeiswyr, wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau, gynnal y broses honno mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn agored, yn rhoi gwerth yr arian ac yn deg. Rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau caffael fel y maent wedi'u hamlinellu yn yr adran hon.

Trothwyon Caffael

Bydd yr union weithdrefnau sydd i'w dilyn yn dibynnu ar faint yr archeb neu'r contract sydd i'w osod. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) gyfres raddedig o weithdrefnau sy'n cydnabod yr angen am ysgafnhau'r gofynion gweinyddol ar gyfer contractau sy'n ymwneud â symiau llai. Mae'r gweithdrefnau y byddem yn disgwyl i ymgeiswyr lynu atynt fel a ganlyn:

Rheolau ynghylch caffael gan Drydydd Parti

Gofyniad	Gwerth (heb gynnwys TAW)	Y Broses Gaffael
Popeth	hyd at £5,000	<p>Rhaid cael a chadw o leiaf 1 Dyfynbris ysgrifenedig</p> <p>Rhaid cael gwerth gorau am yr arian a chymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y nwyddau, y gwaith, neu'r gwasanaethau a gafwyd o safon addas ac wedi eu prynu am bris cystadleuol. At ddibenion archwilio, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig yn cefnogi'r penderfyniad.</p>
Popeth	rhwng £5,000 a £25,000	<p>Rhaid ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar yr un fanyleb a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'.</p> <p>Rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p>
Popeth	rhwng £25,000 a £75,000	<p>Rhaid ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb, • yr un meini prawf gwerthuso a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso • yr un dyddiad cau. <p>Rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p>
Nwyddau a Gwasanaethau	rhwng £75,000 a £173,934	<p>Rhaid ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 2 dendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion, • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract • un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gall</u> fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</p>
Gwaith	rhwng £75,000 a £4,348,350	<p>Rhaid ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 3 thendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion, • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract • un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gall</u> fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</p>

Nwyddau a Gwasanaethau	mwy na £173,934	Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod yn fwy na £173,934 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â rheolwr y prosiect i gael gwybod a yw Cyfarwyddbau Caffael Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.
Gwaith	mwy na £4,348,350	Os yw contract am Waith yn debygol o fod yn fwy na £4,348,350 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â rheolwr y prosiect i gael gwybod a yw Cyfarwyddbau Caffael Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.

* Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, www.gwerthwchigymru.co.uk os yw'n anodd ichi gael hyd i gyflenwyr a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Bernir mai hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru yw'r arfer gorau. Fodd bynnag, gallech deimlo y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.

DALIER SYLW:

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**
- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin bob tro.**
- **Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.**

Osgoi gwrthdaro buddiannau

Rydym yn sylweddoli ei bod yn bosibl y gallai ymgeiswyr / datblygwyr neu unigolion sy'n gysylltiedig â hwy (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion) ddymuno tendro am gontract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd / datblygwr. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros y llall.

Os oes gan ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw, fudd mewn unrhyw gynnig am gontract a gynigir:

- rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, unigolyn neu barti sydd â budd, ddatgan y cyfrwy fudd yn ysgrifenedig wrth swyddog y prosiect.
- ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â budd gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i arfarnu'r tendrau;

Terminoleg Caffael

- **Contract:** cytundeb rhwng y prynwr a'r cyflenwr sy'n cael ei orfodi gan y gyfraith
- **Ffynhonnell Gystadleuol:** darparwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall
- **Nwyddau:** eitemau materol yw nwyddau h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati
- **Cyfarwyddbau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd:** rheolau a rheoliadau yw'r rhain y mae'n rhaid i sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus eu dilyn wrth gaffael Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau dros drothwy penodol (£173,934 ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau a £4,348,350 ar gyfer contractau Gwaith), a rhaid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â'r Cyfarwyddbau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd.
- **Gwerthuso:** dull o bennu pa gynnig yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw
- **Meini Prawf Gwerthuso:** Rhestr o'r gofynion allweddol a dynnwyd o'r fanyleb a fydd yn galluogi'r cyflenwyr i esbonio sut y maent yn bwriadu darparu'r gofynion a gaiff eu gwerthuso. Mae'r meini prawf y pennir y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd arnynt yn seiliedig ar gyfuniad o bris/cost ac ansawdd.
- **Panel Gwerthuso** - Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe all fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso. Dylai'r Panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarferiad caffael
- **Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU):** cyfnodolyn yw hwn lle mae'n rhaid cyhoeddi holl gontractau'r sector cyhoeddus sy'n werth mwy na throthwy penodol (£173,934 ar hyn o bryd am Nwyddau a Gwasanaethau a £4,348,350 am gontractau Gwaith).
- **GwerthwchiGymru** - Gwefan Gaffael Genedlaethol yw hon lle caiff holl gontractau'r sector cyhoeddus eu hysbysebu. Gall rhai sy'n derbyn Grantiau Trydydd Parti hysbysebu ar y wefan yn rhad ac am ddim. E-bostiwr support@buy4wales.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.
- **Gwasanaethau:** tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati
- **Y Fanyleb:** datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio gofynion yr Awdurdod. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Ar gyfer cynnyrch syml, gall y fanyleb fod yn ddim mwy na disgrifiad cryno ond yn achos gofyniad cymhleth bydd yn ddogfen gynhwysfawr.
- **Tendr:** y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i dendro. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol sy'n dangos gallu a chymhwysedd y cyflenwr, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni'r gofynion o ran y fanyleb.
- **Gwaith:** gan gynnwys tirwedd, adeiladu, gwaith adeiladu ac ati

Cynghorion ynghylch Tendro

Pethau i'w gwneud

- gofawch fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl.
- cydymffurfiwch â'r rheolau priodol
- gofawch fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion.
- gofawch fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract
- gofawch fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg i'w debyg.
- gofawch lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio.
- gofawch eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu.

Pethau i beidio â'u gwneud

- Peidiwch â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr.
- Peidiwch â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu.
- Peidiwch â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses.
- Peidiwch â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris.
- Peidiwch â rhoi gormod o fanylion ar lafar pan fyddwch yn ateb cwestiynau penodol gan gyflenwyr.
- Peidiwch â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl.
- Peidiwch â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd.
- Peidiwch ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau.
- Peidiwch ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

Cymorth Gwladwriaethol

Gweithredir Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin o dan reoliad De Minimis o Gymorth Gwladwriaethol sy'n galluogi symiau bychain o arian h.y. llai na €200,000 dros 3 blynedd ariannol yn olynol, i fenter unigol ar gyfer ystod eang o ddibenion.

I gael mwy o fanylion ewch i <http://gov.wales/funding/state-aid/de-minimis-aid/?lang=en>

Ar ôl Cwblhau - Y Telerau a'r Amodau

Dylid nodi mai grant disgresiwn yw Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth gan Aelod Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd y grant yn cael ei adennill os bydd y busnes yn gorffen masnachu, yn symud neu'n gwerthu'r eiddo o fewn 5 mlynedd ar ôl derbyn y grant.

Argymhellir yn gryf y prynir nwyddau a brynir mewn perthynas â'r grant gan ddefnyddio'r cyfrif banc busnes.

Caiff grantiau eu talu'n ôl-weithredol, felly os bydd y cais yn llwyddiannus, telir yr arian grant yn uniongyrchol i gyfrif banc busnes yr ymgeisydd. Mae hyn yn seiliedig ar dderbyniad neu dystiolaeth o brynu a thalu, ee datganiadau banc gwreiddiol neu ar-lein ac anfonebau gwreiddiol i gadarnhau gwariant

Rhaid i'r ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy lenwi'r Hysbysiad ynghylch Cymeradwyo a'r Telerau a'r Amodau cyn pen 30 mis ar ôl ei dderbyn. Rhaid cwblhau'r holl wariant sy'n gysylltiedig â'r grant cyn pen **4 mis** ar ôl dyddiad y llythyr cymeradwyo.

Ar gyfer pob diben grant, bydd y cais yn cael ei fonitro a bydd y dystiolaeth yn digwydd gyda rhybudd ymlaen llaw ar 1, 3 a 5 mlynedd o ddyddiad dyfarnu'r grant.

Rhaid creu'r swydd(i) sy'n gysylltiedig â'r prosiectau cyn pen 12 mis ar ôl y taliad grant terfynol. Bydd y busnesau a'r swyddi sydd wedi'u creu'n cael eu monitro a bydd tystiolaeth yn ofynnol. Gallai methu â chael y canlyniadau a ddisgwylir arwain at dynnu arian grant yn ôl.

Os na fydd y prosiect yn mynd rhagddo cyn pen y cyfnod a nodwyd yn y llythyr cynnig grant, bydd y cynnig grant yn darford ohono'i hun. Gellir ymestyn y cyfnod cynnig grant, ar yr amod bod cais ysgrifenedig yn cael ei wneud. **Rhaid gwneud cais am unrhyw newid o ran y Telerau a'r Amodau a amlinellir yn y Llythyr Cymeradwyo a chytuno iddo**

Ni ystyrir rhoi grantiau ar gyfer yr hyn sy'n cael ei brynu ag arian parod.

Ni fydd eitemau a brynir trwy brydlesu, hurbrynu, prydlesi cyllid/trefniadau credyd estynedig yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant.

Mae eitemau a brynir drwy gardiau credyd yn gymwys ond bydd angen i'r ymgeisydd ddangos fod y swm ar y cerdyn sy'n gysylltiedig â'r eitem(au) yn y cais am grant wedi'i dalu'n llawn cyn hawlio'r grant.

Ni fydd grant yn cael ei gynnig na'i dalu os bydd gan y busnes neu'r ymgeisydd ôl-ddyledion

mewn perthynas ag unrhyw daliad i unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun ac yn ei weithredu.

Clirio arian grantiau yn ôl

Rhaid cadw arian yn ôl a / neu, i'r graddau y gwnaed taliad, rhaid i'r sawl sy'n derbyn grant ad-dalu cyllid naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, gan gynnwys:

a) bu gordaliad o gyllid;

b) yn ystod ei fywyd economaidd, mae'r newid yn cael ei ddiffinio'n sylweddol fel y'i defnyddir at ddibenion heblaw'r rhai a bennir yn y cais, neu, yn cael newid perchennog heb hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin.

Y bywyd economaidd yw'r cyfnod hyd at 5 mlynedd o ddyddiad talu'r grant terfynol a bydd angen ad-dalu cyllid fel a ganlyn:

Dyddiad gwaredu asedau (au)	Swm i'w ad-dalu
O fewn 1 blwyddyn	Ad-dalu yn llawn
O fewn 2 flynedd	80% or gronfa i'w ad-dalu
O fewn 3 blynedd	60% or gronfa i'w ad-dalu
O fewn 4 blynedd	40% or gronfa i'w ad-dalu
O fewn 5 mlynedd	20% or gronfa i'w ad-dalu
Ar ôl 5 mlynedd	Dim byd i'w ad-dalu

Yr uchod yw'r gofynion lleiafswm ad-dalu

Os na chaiff y swyddi eu creu / eu diogelu, yna mae gan y Cyngor Sir yr hawl i adennill y grant yn rhannol neu'n llawn.

Rhaid ad-dalu'r grant yn llawn ar alw os: -

- canfyddir bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw gamgynrychiolaeth mewn cysylltiad â'r cais;
- mae'r ymgeisydd wedi torri'r ddarpariaeth amod (14.2) uchod;
- nid yw'r eiddo wedi'i ail-osod yn llawn o fewn 12 mis o unrhyw ddiwyddiad sy'n achosi colled neu difrod i'r eiddo.

RHESTR WIRIO - CYN CYFLWYNO

Ticiwch y rhestr wirio ganlynol i sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi cael ei chyflwyno gyda'r cais hwn.

	Ffurflen Gais gyflawn
	Cynllun Busnes
	Rhagolygon ariannol 3 blynedd (llif arian a'r elw a'r golled)
	Dyfnbrisiau Ysgrifenedig(gweler y dogfennau cyfarwyddyd a'r telerau a'r amodau)
	Tystiolaeth o'r dyddiad dechrau masnachu, e.e. cofrestriad â CThEM, cyfriflenni banc, eich anfoneb gyntaf ac ati.
	Prawf o arian cyfatebol
	Gwrthdaro buddiant wedi'i gydnabod a'i ddatgan (os yn berthnasol)
	Polisi'r Iaith Gymraeg